




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Deddf Iechyd Meddwl 1983

Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru)

Gorffennaf 2018

Cyflwyniad

- i. Ym mis Tachwedd 2008, cyflwynwyd swyddogaethau clinigwyr cymeradwy i ddeddfwriaeth iechyd meddwl ar draws Cymru a Lloegr, gan ddatgan rolau newydd a ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal iechyd meddwl.
- ii. Mae clinigydd cymeradwy yn weithiwr iechyd meddwl proffesiynol sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru i weithredu felly at ddiben Deddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983"). Mae rhai penderfyniadau dan Ddeddf 1983 na all ond pobl sy'n glinigwyr cymeradwy eu gwneud.
- iii. Yn ymarferol, mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r swyddogaeth o gymeradwyo personau i weithredu fel clinigwyr cymeradwy i fyrdau iechyd lleol drwy Gyfarwyddydau a wnaed dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
- iv. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cymeradwyo'r cyfryw glinigwyr ar ran yr holl fyrdau iechyd lleol yng Nghymru. Mae'r fframwaith ar gyfer y broses gymeradwyo yn gweithredu ar dair lefel:
 - i. Tîm Cymeradwyo – sy'n ymdrin â'r holl drefniadau gweithdrefnol ar gyfer cymeradwyo
 - ii. Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy (gyda Chadeirydd dynodedig) – sy'n gwneud argymhellion ar gyfer Cymeradwyo
 - iii. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr – sy'n cadarnhau argymhellion Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan
- v. Mae'r Arweiniad hwn wedi cael ei lunio i gynorthwyo unigolion a sefydliadau sydd â buddiannau a chyfrifoldebau yn ymwneud â chymeradwyo clinigwyr cymeradwy i ddeall a chyflawni'r cyfrifoldebau hynny.
- vi. Mae'r Tîm Cymeradwyo ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn datgan y trefniadau gweithdrefnol manwl a'r gofynion ar gyfer cymeradwyo ac ailgymeradwyo.
- vii. Dylid darllen yr arweiniad hwn ochr yn ochr â Chyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a'r trefniadau gweithdrefnol llawn sydd i'w gweld ar wefan Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr: www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/home or [/www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/65245](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/65245)

Ar gyfer pwy mae'r arweiniad?

- viii. Mae'r unigolion a'r sefydliadau a fydd â diddordeb yn yr arweiniad hwn yn cynnwys:
 - a. y rheini sy'n cyflawni swyddogaethau clinigydd cymeradwy
 - b. y rheini sy'n ceisio cymeradwyaeth fel clinigydd cymeradwy
 - c. sefydliadau sy'n cynllunio, yn sicrhau neu'n ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl
 - d. cyfarwyddwyr Clinigol, arweinyddion proffesiynol a rheolwyr gwasanaethau iechyd meddwl
 - e. y rheini sy'n ymwneud â chynllunio, sicrhau neu ddarparu hyfforddiant mewn ymarfer a deddfwriaeth iechyd meddwl.

Cefndir i'r Arweiniad

- ix. Bu i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod â Llywodraeth Cymru yn 2013 i drafod meysydd yn y broses gymeradwyo a'r trefniadau llywodraethu y credai'r Tîm Cymeradwyo a'r Bwrdd Iechyd Lleol y gellid eu gwella. Roedd gwahaniaethau rhwng y prosesau yng Nghymru a Lloegr yn ychwanegu at yr her o gynnal cysondeb y gwasanaeth ar gyfer ymarferwyr iechyd meddwl a byrddau iechyd lleol yng Nghymru a hefyd ar draws y ffin â Lloegr.
- x. Galwyd ynghyd grŵp gorchwyl a gorffen adolygu o randdeiliaid allweddol i adolygu meysydd a oedd yn peri pryder ac yna bu iddynt adrodd ar eu canfyddiadau a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn 2015.
- xi. Mae Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 wedi cael eu diwygio a chafodd yr arweiniad hwn ei lunio yn seiliedig ar yr argymhellion hynny.

Crynodeb o'r Newidiadau – Pwyntiau Allweddol

Mae crynodeb o'r newidiadau a restrir isod i'r broses o gymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy wedi cael eu gwneud i roi mwy o sicrhau ynglŷn â diogelwch cleifion a'r cyhoedd, a chefnogi ar yr un pryd weithlu cynaliadwy a digonol i gyflenwi gwasanaethau iechyd meddwl cyfreithiol yng Nghymru. Caiff y newidiadau eu disgrifio'n llawnach drwy'r arweiniad hwn ac mewn manylder yn y trefniadau gweithdrefnol a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- mae'r gofyn i gwblhau **datganiad blynyddol** i gadarnhau bod y sawl yn dal i feddu ar y cymwyseddau perthnasol i gyflawni ei swyddogaethau fel clinigydd cymeradwy yn cael **ei ddileu**
- **cysylltir â Chlinigwyr Cymeradwy yn flynyddol** i gadarnhau eu gweithle cyfredol, teitl eu swydd a'u bod yn parhau i weithredu, neu y gellid bod gofyn iddynt weithredu, yn y rôl
- bydd ymarferwyr meddygol cofrestredig nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a gweithwyr proffesiynol cofrestredig cymwys o'r proffesiynau gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, nyrsio a seicoleg yn cyflwyno **cais drwy gyfrwng portffolio**. Er mwyn sicrhau proses ymgeisio gymesur, mae'n bosibl y bydd y panel cymeradwyo yn gofyn am gyfarfod gyda'r ymgeisydd i egluro neu ychwanegu at y dystiolaeth o gymhwysedd a ddarperir drwy gyfrwng y portffolio
- bydd pob ymgeisydd sy'n ceisio cymeradwyaeth yn cadarnhau a gafodd **cais** am gymeradwyaeth a wnaed yn rhywle arall ei **wrthod**
- rhaid i glinigwyr sy'n ymgeisio am gymeradwyaeth neu ailgymeradwyaeth ddarparu dystiolaeth o **werthusiad** sy'n dangos canlyniad boddhaol

- bydd gofyn i bawb sy'n ymgeisio am ailgymeradwyaeth ddilyn **hyfforddiant diweddar** ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth gyfredol i ben
- bydd angen i ymarferwyr meddygol cofrestredig ym mlwyddyn olaf yr hyfforddiant arbenigol uwch tuag at eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol ddarparu eu **tystysgrif cwblhau hyfforddiant** fel un o amodau eu cymeradwyaeth gyfredol
- caiff cyfrifoldebau **llywodraethu** cliriach a phendant eu datgan o safbwynt:
 - a. proses a threfniadau gweithdrefnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflawni'r swyddogaethau i gymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy
 - b. ymgeiswyr sy'n ceisio cymeradwyaeth a Chlinigwyr Cyfrifol/Clinigwyr Cymeradwy
 - c. cyflogwyr, arweinyddion clinigol a phroffesiynol ymarferwyr sy'n ceisio cymeradwyaeth a'r rheini sydd wedi cael cymeradwyaeth i gyflawni swyddogaethau Clinigwyr Cymeradwy.
- dylai ymgeiswyr sy'n ceisio cymeradwyaeth fel ymarferwyr meddygol cofrestredig sy'n gyflogedig fel "**Locwm**" gael eu hystyried yn glinigwyr cymeradwy yn yr un modd ag ymgeiswyr eraill – yn ddibynnol ar yr amgylchiadau cyflogaeth gallai'r Bwrdd sy'n cymeradwyo bennu amodau adeg cymeradwyo.

Diolchiadau

Hoffai Llywodraeth Cymru gydnabod gwaith a chefnogaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru Gyfan i baratoi'r Arweiniad hwn.

Hoffai Llywodraeth Cymru hefyd ddiolch i Dîm Cymeradwyo cyfredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr am helpu gyda'r gwaith o weithredu'r newidiadau hyn gan gynnal ar yr un pryd y broses gyfredol o gymeradwyo ac ailgymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy ledled Cymru.

Pennod 1 – Cefndir Cyfreithiol a Pholisi

Fframwaith Cyfreithiol

- 1.1 Roedd Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 yn sefydlu swyddogaeth clinigwyr cymeradwy a chlinigwyr cyfrifol. Dan Ddeddf 1983 mae rhai penderfyniadau na all ond pobl sy'n glinigwyr cymeradwy eu gwneud. Clinigydd cyfrifol yw clinigydd cymeradwy sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros achos claf unigol.
- 1:2 Caiff gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru i weithredu fel clinigwyr cymeradwy yng Nghymru. Yn ymarferol, rhoddir swyddogaeth Gweinidogion Cymru i gymeradwyo dan Gyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cymeradwyo ar ran yr holl Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.
- 1:3 Mae Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018 i'w gweld yn Atodiad A ac maent yn datgan:
- sut caiff clinigwyr cymeradwy eu cymeradwyo ac am ba hyd
 - pwy sy'n gymwys i geisio cymeradwyaeth a gweithredu fel Clinigydd Cymeradwy
 - pa ofynion a chymwyseddau y mae'n rhaid eu bodloni a'u harddangos
 - yr amodau sy'n ofynnol i gadw'r gymeradwyaeth
 - yr amgylchiadau a'r broses ar gyfer atal cymeradwyaeth dros dro a'i dirwyn i ben
 - y gofynion ar gyfer "ailgymeradwyo" cymeradwyaeth gyfredol.

Pwy sy'n gymwys i geisio cymeradwyaeth

- 1.4 I geisio cymeradwyaeth, rhaid i'r sawl fodloni:
- a. y gofynion proffesiynol
 - b. y gofynion cymhwysedd
 - c. y gofynion hyfforddiant a
 - d. bodloni gofynion Cyfarwyddyd 4(d) ynglŷn â thystysgrif cofnod troseddol.

1.5 **Gofynion proffesiynol** – i'w gweld yn Atodlen 1 – Cyfarwyddyd 4 (a)

Rhaid i'r sawl sy'n ceisio cymeradwyaeth gyflwyno tystiolaeth i ddangos ei fod yn un neu ragor o'r canlynol:

- a. yn ymarferydd meddygol cofrestredig
- b. yn seicolegydd sydd wedi ei restru yng nghofrestr Cymdeithas Seicolegol Prydain ac sy'n dal tystysgrif ymarfer a ddyroddir gan y Gymdeithas honno
- c. yn seicolegydd ymarferol sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- d. yn nyrs lefel gyntaf ym maes iechyd meddwl neu anabledau dysgu (sydd wedi ei chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth)

- e. yn therapydd galwedigaethol (sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal)
- f. yn weithiwr cymdeithasol sydd wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt) neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

Dangosyddion ynglŷn â phwy a allai fod yn gymwys

Mae llwybrau datblygu proffesiynol a gyrfaol ôl-gofrestru y gwahanol weithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n gymwys i geisio cymeradwyaeth fel Clinigwyr Cymeradwy yn amrywiol. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl cynnig arweiniad pendant ynglŷn ag a yw'r ffaith bod gweithwyr proffesiynol yn cyrraedd gradd benodol mewn swydd neu lefel o addysg broffesiynol ffurfiol eu hunain yn ddangosyddion o'u lefel o gymhwysedd clinigol na'u parodrwydd i geisio cymeradwyaeth.

Yn ogystal â'r gofynion rheoli adnoddau dynol a llywodraethu a argymhellir yn yr arweiniad hwn, mae hefyd yn debygol, er mwyn dangos y cymwyseddau gofynnol, y bydd person sy'n gymwys i ymgeisio am gymeradwyaeth wedi gweithio am gyfnod sylweddol o amser ar ôl cofrestru mewn ymarfer iechyd meddwl a bod y profiad sydd ganddo ef/hi yn gyfredol neu'n ddiweddar iawn.

Er enghraifft:

- ystyrir bod **meddyg meddygol** sydd wedi ei gofrestru ar Gofrestr Arbenigwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ar gyfer arbenigeddau seiciatrig yn hyddysg yn y cymwyseddau a nodir yn Atodlen 2 i'r Cyfarwyddydau:
- gallai **meddyg meddygol** nad yw ar y Gofrestr Arbenigwyr ond sydd â chymeradwyaeth gyfredol dan adran 12 (2) o Ddeddf 1983 ac sydd wedi gweithio am gyfnod sylweddol o amser ar ôl cofrestru ym maes ymarfer iechyd meddwl fod yn hyddysg yn y cymwyseddau
- mae **seicolegywr** yn debygol o fod yn gyflogedig ar Lefel 8 yn Fframwaith Gyrfaedd y GIG¹
- mae'n bosibl bod **nyrs anabledd dysgu neu iechyd meddwl, neu therapydd galwedigaethol** wedi'i gyflogi mewn swydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Lefel 7 o Fframwaith Gyrfaedd y GIG ond yn fwy tebygol ar lefel 8
- bydd **gweithiwr cymdeithasol** yn gweithio mewn rôl uwch ymarferydd a bydd disgwyl iddo feddu ar brofiad diweddar sylweddol fel gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy.

1.6 Gofynion Cymhwysedd – i'w gweld yn Atodlen 2 – Cyfarwyddyd 4 (b)

Caiff y gofynion o ran cymhwysedd eu datgan yn fanwl ar gyfer y meysydd canlynol:

1. Rôl y Clinigydd Cymeradwy
2. Ymarfer ar sail gwerthoedd
3. Asesu

¹ www.healthcareers.nhs.uk/career-planning/resources/nhs-career-framework

4. Cynllunio Gofal a Thriniaeth
5. Triniaeth
6. Arweinyddiaeth a Gweithio mewn Tîm Amlddisgyblaethol
7. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau
8. Deddfwriaeth a Pholisi Iechyd Meddwl
9. Cyfathrebu

1.7 Gofynion Hyfforddiant

Rhaid i'r sawl sy'n ceisio cymeradwyaeth fod wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol ar gyfer clinigwyr cymeradwy **o fewn dwy flynedd i ddyddiad y cais**.

Rhaid i'r sawl sy'n ceisio ailgymeradwyaeth fod wedi cwblhau cwrs hyfforddi diweddarau **o fewn dwy flynedd i'r dyddiad** pryd y daw'r gymeradwyaeth gyfredol i ben.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi'r fanyleb ar gyfer y cyfryw hyfforddiant ond mae arweiniad ar y cynnwys i'w gael ym Mhennod 4.

1.8 Tystysgrifau

Rhaid i'r sawl sy'n ceisio cymeradwyaeth ac ailgymeradwyaeth gyflwyno tystiolaeth fod ganddo ef/hi dystysgrif cofnod troseddol manwl dilys sy'n cynnwys gwybodaeth am ei addasrwydd i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Pennod 2 – Y Broses Gymeradwyo

Egwyddorion Sylfaenol

- 2.1 Mae'r broses o gymeradwyo clinigwyr cymeradwy yn bodoli er mwyn gwarchod cleifion unigol a'r cyhoedd a sicrhau y ceir capasiti digonol yn y gweithlu yng Nghymru i gynnal gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol a chyfreithlon.
- 2.2 I gydbwysu'r angen i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd, gyda'r angen i gynnal gweithlu digonol a chynaliadwy o glinigwyr cymeradwy a chyfrifol, rhaid i'r broses gymeradwyo fod:
- Yn dryloyw
 - Yn gymesur
 - Yn syml
 - Bod wedi'i hategu a'i chefnogi gan systemau rheoli adnoddau dynol a llywodraethu cadarn yn sefydliadau'r darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl lle bydd y clinigwyr cymeradwy yn gweithio.

Y Broses Ymgeisio

- 2.4 Mae manylion llawn y trefniadau gweithdrefnol a'r gofynion ar gyfer ceisiadau sy'n ceisio cymeradwyaeth ac ailgymeradwyaeth yn cael eu datgan gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ni fwriedir i'r arweiniad hwn ddyblygu'r manylion hynny. Fodd bynnag, er mwyn eglurder a dealltwriaeth, nodwyd statws proffesiynol a chofrestru pedwar grŵp o ymgeiswyr cymwys, sef:
- ymarferwyr meddygol cofrestredig ar Gofrestr Arbenigwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
 - ymarferwyr meddygol cofrestredig ar flwyddyn olaf eu hyfforddiant arbenigol uwch ar gyfer cael eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC
 - ymarferwyr meddygol cofrestredig nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC
 - gweithwyr proffesiynol cofrestredig o broffesiwn nad yw'n broffesiwn meddygol.
- 2.5 Mae'r tablau yn **Atodiad B** ac **Atodiad C** yn cynnwys rhestr drosolwg o'r gofynion ar gyfer pob un o'r grwpiau uchod pan maent yn ymgeisio am **Gymeradwyaeth Gychwynnol** ac **Ailgymeradwyaeth** a dylid eu darllen ar y cyd â'r trefniadau gweithdrefnol y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'u datgan.
- 2.6 Cydnabyddir bod cyflogi ymarferwyr meddygol cofrestredig ar sail "locwm" yn adnodd hanfodol i alluogi i wasanaeth iechyd meddwl a thriniaeth a gofal cyfreithlon a diogel gael ei gyflenwi i gleifion. Dylai "meddygon locwm" sy'n ceisio cymeradwyaeth neu ailgymeradwyaeth gael eu hystyried yn glinigwyr cymeradwy yn yr un modd ag ymgeiswyr eraill. Gallai Panel Cymru Gyfan ar gyfer Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy bennu amodau adeg cymeradwyo Meddygon Locwm yn ddibynnol ar amgylchiadau'r gyflogaeth.

Cyfnod y Gymeradwyaeth

2.7 Rhoddir cymeradwyaeth i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy am bum mlynedd.

Y Broses Ailgymeradwyo

2.8 Rhaid gwneud cais am ailgymeradwyaeth cyn i gyfnod pum mlynedd y gymeradwyaeth bresennol ddod i ben.

2:9 Cyfrifoldeb y Clinigwyr Cymeradwy yw sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer ailgymeradwyo o fewn yr amserlenni gofynnol i sicrhau parhad y statws cymeradwy.

Amodau Cynnal y Gymeradwyaeth

2.10 Yn ystod cyfnod pum mlynedd pob cymeradwyaeth ceir amodau er mwyn darparu sicrwydd parhaus. Yr amodau ydy bod yn **rhaid** i glinigwyr:

- roi'r gorau i weithredu yn y rôl ar unwaith os cânt eu hatal dros dro o unrhyw gofrestrriad proffesiynol sy'n un o ofynion y gymeradwyaeth a dweud wrth y Bwrdd sy'n cymeradwyo ar unwaith ei fod wedi ei atal dros dro
- dweud wrth y Bwrdd sy'n cymeradwyo ar unwaith:
 - i. os yw eu corff cofrestru proffesiynol wedi rhoi amodau wrth eu cofrestru neu'u rhestru
 - ii. os yw eu corff proffesiynol yn eu gwneud yn destun achos addasrwydd i ymarfer
 - iii. os nad ydynt mwyach yn bodloni'r gofynion ar gyfer y gymeradwyaeth ac ailgymeradwyaeth
 - iv. os cânt eu heuogfarnu neu os cânt rybuddiad am droseddu
- pan ofynnir, darparu tystiolaeth i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo eu bod yn dal i feddu ar y cymwyseddau perthnasol
- rhoi'r gorau i weithredu fel clinigwyr cymeradwy ar unwaith os caiff eu cymeradwyaeth ei hatal dros dro neu os daw cyfnod y gymeradwyaeth i ben a bod dim cais am ailgymeradwyaeth wedi cael ei wneud.

2.11 Caiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo bennu amodau eraill fel y credant sy'n rhesymol ac yn briodol fesul achos

2:12 Yn ystod unrhyw gyfnod o gymeradwyaeth, os yw corff cofrestru proffesiynol y Clinigydd Cymeradwy wedi rhoi amodau wrth ei gofrestru neu ei restru, **rhaid** i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo roi'r un amodau ar y gymeradwyaeth (oni fod y gymeradwyaeth wedi'i hatal dros dro – gweler isod).

Atal cymeradwyaeth dros dro

2.13 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y gymeradwyaeth ceir amgylchiadau lle bo naill ai'n **rhaid** neu lle **caiff** y Bwrdd sy'n cymeradwyo atal cymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy dros dro. Mae'r amgylchiadau hyn i'w gweld isod.

- 2.14 Os yw corff cofrestru proffesiynol clinigydd cymeradwy yn atal ei gofrestrriad neu ei restrriad dros dro, **rhaid** i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo atal dros dro gymeradwyaeth y clinigydd hwnnw am gyn hired ag yr atalir y cofrestrriad neu'r rhestrriad.
- 2.15 **Caiff** y Bwrdd sy'n cymeradwyo atal cymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy dros dro:
- os yw corff proffesiynol y clinigydd cymeradwy wedi rhoi amodau ar ei gofrestrriad neu ei restrriad
 - os yw'r clinigydd cymeradwy yn cael ei euogfarnu o droseddu, neu'n cael rhybuddiad am droseddu.
- 2.16 Cyn i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo atal cymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy dros dro rhaid iddo:
- rhoi i'r Clinigydd Cymeradwy ei resymau am ystyried atal y gymeradwyaeth dros dro
 - rhoi i'r Clinigydd Cymeradwy amser rhesymol i ymateb i'r camau arfaethedig
 - ystyried ymateb/sylwadau'r Clinigydd Cymeradwy i'r camau arfaethedig.
- 2.17 Pan fo'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn atal dros dro gymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy, **rhaid** iddo hysbysu'r Clinigydd Cymeradwy a'r Corff Cofrestru Proffesiynol sy'n gyfrifol am gofrestrriad neu restrriad proffesiynol y clinigydd cymeradwy am y rhesymau dros y penderfyniad.
- 2.18 Os yw cymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy yn cael ei hatal dros dro, ni chaiff weithredu fel Clinigydd Cymeradwy nes daw'r cyfnod atal y gymeradwyaeth dros dro i ben.
- 2.19 Pan ddaw'r cyfnod o atal cymeradwyaeth dros dro i ben, bydd y gymeradwyaeth yn parhau'n weithredol am weddill cyfnod y gymeradwyaeth.

Cymeradwyaeth yn dod i ben

- 2.20 Mae cymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy yn dod i ben pan fo'r cyfnod cymeradwyaeth 5 mlynedd yn dod i ben.
- 2.21 **Rhaid** i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ddod â chymeradwyaeth clinigydd cymeradwy i ben cyn i'r cyfnod pum mlynedd ddod i ben:
- os nad yw'r clinigydd cymeradwy yn cydymffurfio â'r amodau ar gyfer y gymeradwyaeth gyfredol (nodir ym mhwyntiau 2:10-2:12 uchod)
 - os nad oes gan y clinigydd cymeradwy y cymwyseddau perthnasol mwyach
 - os nad yw'r clinigydd cymeradwy yn bodloni'r gofynion cofrestru proffesiynol mwyach neu
 - os yw'r clinigydd cymeradwy yn gwneud cais ysgrifenedig i ddod â'i gymeradwyaeth i ben.
- 2.22 Cyn dod â chymeradwyaeth clinigydd cymeradwy i ben, **rhaid** i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo:
- rhoi i'r clinigydd cymeradwy ei resymau dros ystyried dod â'r gymeradwyaeth i ben

- b. rhoi i'r clinigydd cymeradwy amser rhesymol i ymateb/gwneud sylwadau ynglŷn â'r camau arfaethedig
 - c. ystyried unrhyw ymateb/sylwadau y mae'r Clinigydd Cymeradwy yn eu cyflwyno.
- 2.23 Pan fo'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn dod â chymeradwyaeth Clinigydd Cymeradwy ben rhaid iddo hysbysu'r Clinigydd Cymeradwy yn ysgrifenedig o'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben a'r rheswm dros ei benderfyniad.

Darpariaethau trosiannol

- 2.24 Bydd unigolyn sy'n cael cymeradwyaeth i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy cyn y dyddiad y daw'r cyfarwyddydau newydd i rym yn dal i gael ei ystyried yn gymeradwy dan y cyfarwyddydau newydd.
- 2:25 Pan fo unigolyn wedi gwneud cais am gymeradwyaeth cyn y diwrnod y daw'r cyfarwyddydau newydd i rym, ond na phenderfynwyd ar y cais hwnnw eto, caiff y cais ei brosesu yn unol â Chyfarwyddydau 2008. Os rhoddir Cymeradwyaeth, ystyrir ei fod wedi cael y gymeradwyaeth dan y cyfarwyddydau newydd.

Pennod 3 – Cymwyseddau ac Ymarfer Proffesiynol

Ymestyn cwmpas yr ymarfer

- 3.1 Nid yw swyddogaethau clinigwyr cymeradwy a chlinigwyr cyfrifol a roddir dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 yn “rolau” nac yn “swyddi” newydd nac annibynnol yn y gwasanaethau iechyd meddwl.
- 3.2 Drwy ddod yn glinigydd cymeradwy (ac i glaf unigol, yn glinigydd cyfrifol) mae ymarferydd iechyd meddwl i bob pwrpas yn ymestyn ei rôl broffesiynol graidd ac yn ymarfer ar lefel uwch yng nghyd-destun y rôl honno.
- 3.3 Ystyrir bod cymwyseddau craidd y gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cofrestredig sy’n ceisio cymeradwyaeth i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy yn darparu’r wybodaeth sylfaenol, y sgiliau, y gwerthoedd a’r ymddygiadau sy’n ofynnol i weithredu fel clinigydd cyfrifol. Caiff sylfeini’r cymhwysedd eu sicrhau gan gofrestrriad proffesiynol cyfredol.
- 3.4 Disgwylir y bydd gweithiwr proffesiynol cofrestredig sy’n ceisio cymeradwyaeth fel Clinigydd Cymeradwy wedi elwa o brofiad ymarfer iechyd meddwl ôl-gofrestru amlddisgyblaethol a chlinigol perthnasol a sylweddol. Disgwylir hefyd y bydd wedi cael mynediad i, ac yn parhau i ddilyn hyfforddiant, datblygiad ac addysg broffesiynol ar ôl cofrestru, yn ogystal â goruchwyliaeth broffesiynol neu glinigol effeithiol, cynlluniau ar gyfer datblygu a gwerthusiad o’i berfformiad.

Pennod 4 – Hyfforddiant ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy

4.1 Yn ogystal â chyflawni'r gofynion proffesiynol a chymhwysedd i fod yn glinigydd cymeradwy, rhaid i weithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n ceisio cymeradwyaeth fod wedi dilyn cwrs hyfforddi cychwynnol ar gyfer clinigwyr cymeradwy (yn y ddwy flynedd diwethaf). Rhaid iddynt hefyd fod wedi cwblhau cwrs hyfforddi diweddarau o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y daw'r cyfnod cymeradwyo cyfredol i ben os ydynt am gael ailgymeradwyaeth.

4:2 Diben y cwrs hyfforddi cychwynnol yw cyfnerthu dealltwriaeth o swyddogaethau allweddol clinigwyr cymeradwy a chlinigwyr cyfrifol. Disgwylir i'r cwrs hyfforddi cychwynnol ychwanegu at y gyfres o sesiynau datblygu proffesiynol parhaus, goruchwyliaeth, hyfforddiant a gwerthusiadau y cyfeirir atynt ym Mhennod 3.

4:3 Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru bennu'n fanwl fanyleb ar gyfer y cyfryw gwrs hyfforddi. Fodd bynnag, fan leiaf, disgwylir i ddarpar ymgeiswyr sy'n ceisio cymeradwyaeth ac sydd wedi cwblhau'r cwrs hyfforddi cychwynnol ar gyfer y rôl feddu ar ddealltwriaeth glir o:

- Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth gysylltiedig â chyfraith achosion
- Cod Ymarfer Cymru (2016) i Ddeddf 1983, Cod Ymarfer ac arweiniad i Ddeddf 2005 a'r Cod Ymarfer a'r arweiniad ar gyfer Mesur 2010
- Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018
- swyddogaethau a chyfrifoldebau Clinigwyr Cymeradwy
- swyddogaethau a chyfrifoldebau clinigwyr cyfrifol
- rôl a swyddogaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru dan Ddeddf 1983
- rôl a swyddogaeth Rheolwyr Ysbytai dan Ddeddf 1983
- materion cydraddoldeb a'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol
- yr angen i sicrhau eu bod yn cynnal eu cymhwysedd fel clinigydd cymeradwy.

Pennod 5 – Llywodraethu a Chyfrifoldebau

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 5.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gyfrifol am gymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n gyfrifol am:
- goruchwylio system ar gyfer cymeradwyo sy'n gymesur, yn effeithiol ac yn effeithlon
 - darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol ar gyflawni'r rôl hon.

Tîm Cymeradwyo Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 5.2 Mae'r tîm cymeradwyo yn gyfrifol am ddylunio, gweithredu ac adolygu'n rheolaidd broses gymeradwyo, yn unol â Chyfarwyddydau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018 a'r arweiniad hwn ar ran Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n gyfrifol am:
- derbyn ceisiadau gan y rheini sy'n ceisio cymeradwyaeth
 - ystyried y dystiolaeth ofynnol a gyflwynwyd i gefnogi'r ceisiadau
 - cymeradwyo ymarferwyr sy'n bodloni'r gofynion
 - hysbysu'r ymgeiswyr a'r cyflogwyr sy'n eu henwebu o ganlyniad y ceisiadau
 - ailgymeradwyo clinigwyr cymeradwy
 - atal dros dro neu ddwyn i ben gymeradwyaeth unigolion fel bo angen
 - cadw cofnod o glinigwyr cymeradwy
 - cynllunio a chydlynu hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddarau ar gyfer clinigwyr cymeradwy
 - adolygu'r system a'r prosesau cymeradwyo yn rheolaidd.

Cynllunwyr a Darparwyr Gwasanaethau

- 5.3 Mae'r rheini sy'n cynllunio, yn sicrhau neu'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu goruchwylio yn cefnogi, yn gyfreithlon ac yn ddiogel, gleifion sy'n cael gofal a thriniaeth dan ddarpariaethau Deddf 1983. I'r perwyl hwn, maent yn gyfrifol am sicrhau:
- bod y modelau gwasanaeth a'r cyflenwi yn addas at y diben
 - bod gan y gweithlu clinigol y capasiti a'r cymhwysedd i gyflenwi'r modelau gwasanaeth
 - bod gwasanaethau'n cyflogi niferoedd digonol o glinigwyr cymeradwy i gynnal gwasanaeth clinigwyr cyfrifol effeithiol
 - mai dim ond gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymwysedig a chymwys sy'n cael cefnogaeth gyda'u cais i fod yn glinigwyr cymeradwy
 - bod clinigwyr cymeradwy yn cael cefnogaeth briodol mewn sefydliadau i gyflawni swyddogaethau clinigwyr cymeradwy ac
 - bod cytundebau lefel gwasanaeth gydag asiantaethau locwm yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n gweithio fel ymarferwyr "locwm" yn gwbl gymwysedig a chymwys i weithredu fel clinigwyr cymeradwy.

Cyfarwyddwyr Clinigol, Arweinyddion Proffesiynol a Rheolwyr Gwasanaethau

- 5.4 Mae cyfarwyddwyr clinigol, arweinyddion proffesiynol a rheolwyr gwasanaethau'n gyfrifol am sicrhau bod y clinigwyr cymeradwy a'r clinigwyr cyfrifol yn eu gwasanaethau yn gymwysedig ac yn gymwys i gyflawni'r swyddogaethau neu'r rôl a'u bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwyllo i wneud hynny. Maent yn gyfrifol am sicrhau:
- mai ond y rheini sy'n gymwys i fod yn glinigwyr cymeradwy sy'n cael eu cefnogi i ymgeisio am gymeradwyaeth ac ailgymeradwyaeth ac y bydd cyfleoedd i weithredu yn rôl y clinigydd cymeradwy ar gael ac yn cael eu cefnogi
 - mae clinigwyr cymeradwy yn cynnal ac yn datblygu cymhwysedd i gyflawni'r rôl drwy ymgysylltu ag, a chael mynediad i raglen datblygu proffesiynol parhaus o oruchwyliaeth glinigol a phroffesiynol, hyfforddiant perthnasol, addysg a gwerthusiad o berfformiad sy'n cynnwys ystyried rôl a swyddogaethau clinigwyr cymeradwy a chlinigwyr cyfrifol.

Clinigwyr Cymeradwy a Chlinigwyr Cyfrifol

- 5.5 Mae clinigwyr cymeradwy, a'r rheini sy'n gweithredu fel clinigwyr cyfrifol, yn gyfrifol am sicrhau eu bod bob amser yn ymarfer o fewn terfynau eu cymhwysedd. Maent yn gyfrifol am:
- gweithredu'n gyfreithlon bob amser wrth gyflawni swyddogaethau fel clinigwyr cymeradwy neu glinigwyr cyfrifol
 - peidio byth ag ymarfer y tu hwnt i ffiniau eu cymhwysedd
 - cynnal eu cofrestriad proffesiynol ar gyfer eu rôl graidd o fewn y tîm iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol
 - cynnal eu cymhwysedd fel clinigydd cymeradwy
 - dilyn hyfforddiant diweddar o safbwynt swyddogaethau clinigwyr cymeradwy yn ystod dwy flynedd olaf cyfnod eu cymeradwyaeth fel clinigwyr cymeradwy
 - cynnal eu cymeradwyaeth fel clinigwyr cymeradwy drwy:
 - cydymffurfio â'r amodau ar gyfer cynnal cymeradwyaeth fel y nodir yn 2:10 – 2:12 uchod
 - cyflwyno'r dystiolaeth ofynnol i'r Tîm sy'n Cymeradwyo bob pum mlynedd i geisio ailgymeradwyaeth
 - sicrhau bod eu portffolio cofrestru/datblygu proffesiynol yn cael ei ddiweddarau
 - ymgysylltu â phrosesau goruchwyllo proffesiynol a chlinigol, addysg a hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus a phrosesau gwerthuso perfformiad.

Darpar Glinigwyr Cymeradwy

- 5.6 Mae'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n ceisio cymeradwyaeth yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion cymeradwyo i gefnogi eu cais. Maent yn gyfrifol am:
- cynnal eu cofrestriad proffesiynol ar gyfer eu rôl graidd o fewn y tîm iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol
 - cynnal a datblygu eu cymhwysedd i fod yn glinigwyr cymeradwy ac i weithredu fel clinigwyr cyfrifol
 - sicrhau bod eu portffolio cofrestru/datblygu proffesiynol yn cael ei ddiweddarau a'i fod ar gael os gofynnir amdano fel tystiolaeth o gymhwysedd, os oes angen
 - ymgysylltu â phrosesau goruchwyllo proffesiynol a chlinigol, addysg a hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus a phrosesau gwerthuso perfformiad.

Cynllunwyr a Darparwyr Hyfforddiant

- 5.7 Mae'r rheini sy'n sicrhau, yn cynllunio neu'n darparu cyrsiau hyfforddi cychwynnol neu ddiweddarau i unigolion sy'n ceisio cymeradwyaeth neu ailgymeradwyaeth i weithredu fel Clinigwyr Cymeradwy yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfryw gyrsiau yn addas at y diben drwy:
- sicrhau bod y fanyleb ar gyfer y cyrsiau hyfforddi yn bodloni'r gofynion a argymhellir yng Nghyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018 a'r arweiniad cysylltiedig hwn
 - cynnal cofnod o'r gweithwyr proffesiynol hynny sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus.

Atodiad A

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018

I S - D D E D D F W R I A E T H

2018 Rhif 55 (Cy.)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018

Gwnaed 16 Gorffennaf 2018

Yn dod i rym 20 Gorffennaf 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(1)(b), 13(2)(a) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enw, Cychwyn a Chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys mewn perthynas â chymeradwyo personau i weithredu fel clinigwyr cymeradwy o ran Cymru.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 16 Gorffennaf 2018

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

mae i “anhwylder meddwl” yr ystyr a roddir i “*mental disorder*” yn adran 1(2) o Ddeddf 1983;

ystyr “Bwrdd” (“*Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf 2006;

ystyr “Bwrdd sy'n cymeradwyo” (“*approving Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr;

mae i “clinigydd cyfrifol” yr ystyr a roddir i “*responsible clinician*” yn adran 34(1) o Ddeddf 1983;

mae i “clinigydd cymeradwy” yr ystyr a roddir i “*approved clinician*” gan adran 145(1) o Ddeddf 1983(1);

ystyr “corff proffesiynol” (“*professional body*”) yw’r corff sy’n gyfrifol am gofrestru neu restru aelodau o bob un o’r proffesiynau a restrir yn Atodlen 1;

ystyr “cwrs hyfforddi cychwynnol” (“*initial training course*”) yw cwrs y mae’r Bwrdd sy’n cymeradwyo yn ystyried ei fod yn addas at ddibenion hyfforddi darpar glinigydd cymeradwy;

ystyr “cwrs hyfforddi diweddar” (“*refresher training course*”) yw cwrs y mae’r Bwrdd sy’n cymeradwyo yn ystyried ei fod yn addas at ddibenion diweddar sgiliau a chymwyseddau person sydd yn, neu sydd wedi bod yn, glinigydd cymeradwy;

ystyr “Cyfarwyddydau 2008” (“*the 2008 Directions*”) yw Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 ynghylch Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008;

mae i “cyfnod cymeradwyaeth” (“*period of approval*”) yr ystyr a roddir yng nghyfarwyddyd 5; ac eithrio yng nghyd-destun cyfarwyddyd 4 mae “cymeradwyo” (“*approve*”) a “cymeradwyaeth” (“*approval*”) yn cynnwys “ailgymeradwyo” (“*reapprove*”) ac “ailgymeradwyaeth” (“*reapproval*”);

ystyr “cymwyseddau perthnasol” (“*relevant competencies*”) yw’r cymwyseddau a restrir yn Atodlen 2 i’r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Iechyd Meddwl 1983(2);

ystyr “Deddf 2006” (“*the 2006 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gofynion proffesiynol” (“*professional requirements*”) yw’r gofynion a nodir yn Atodlen 1 i’r Cyfarwyddydau hyn;

mae i “nodwedd warchoddedig” yr ystyr a roddir i “*protected characteristic*” yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(3);

ystyr “triniaeth” (“*treatment*”) yw triniaeth feddygol am anhwylder meddwl; ac

-
- (1) Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo’r Byrddau i arfer y swyddogaeth o dan adran 145(1) o Ddeddf 1983 o dan eu pwerau i wneud y Cyfarwyddydau hyn.
- (2) 1983 p. 20.
- (3) 2010 p. 15.

mae i “triniaeth feddygol” yr ystyr a roddir i “*medical treatment*” yn adran 145(1) a (4) o Ddeddf 1983.

Swyddogaeth Cymeradwyo

3. Mae'r Byrddau i arfer swyddogaeth cymeradwyo personau i fod yn glinigwyr cymeradwy yn eu hardal gyda'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn arfer y swyddogaeth hon ar ran pob un o'r Byrddau.

Rhoi Cymeradwyaeth

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a chyfarwyddyd 9 ni chaiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo ond rhoi cymeradwyaeth i berson sydd wedi gwneud cais i fod yn glinigydd cymeradwy—

- (a) os yw'r person hwnnw yn bodloni o leiaf un o'r gofynion proffesiynol;
- (b) os yw'r person hwnnw yn gallu dangos bod ganddo'r cymwyseddau perthnasol;
- (c) os yw'r person hwnnw wedi cwblhau cwrs hyfforddi cychwynnol o fewn y cyfnod o ddwy flynedd cyn dyddiad y cais am gymeradwyaeth; a
- (d) os oes gan y person hwnnw dystysgrif cofnod troseddol manwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 gan gynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant o dan adran 113BA ac oedolion hygllwyf o dan adran 113BB o'r Ddeddf honno oni bai bod yr ymgeisydd:
 - (i) yn berson sydd wedi ei gofrestru, neu'n bartner mewn partneriaeth sydd wedi ei chofrestru, o dan Bennod 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; neu
 - (ii) wedi ei gyflogi ar hyn o bryd gan berson sydd wedi ei gofrestru felly.

(2) Pan fo person wedi ei gymeradwyo i weithredu fel clinigydd cymeradwy o ran Lloegr, neu pan fo wedi ei gymeradwyo felly yn y 5 mlynedd flaenorol ac na fo eisoes wedi ei gymeradwyo o dan y Cyfarwyddydau hyn, ni chaiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo ond rhoi cymeradwyaeth i'r person hwnnw i fod yn glinigydd cymeradwy o ran Cymru—

- (a) os yw'r person hwnnw yn bodloni'r gofynion proffesiynol;
- (b) os yw'r person hwnnw yn gallu dangos bod ganddo'r cymwyseddau perthnasol; ac
- (c) os oes gan y person hwnnw dystysgrif cofnod troseddol manwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 gan gynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant o dan adran 113BA ac oedolion hygllwyf o dan

adran 113BB o'r Ddeddf honno oni bai bod yr ymgeisydd:

- (i) yn berson sydd wedi ei gofrestru, neu'n bartner mewn partneriaeth sydd wedi ei chofrestru, o dan Bennod 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; neu
- (ii) wedi ei gyflogi ar hyn o bryd gan berson sydd wedi ei gofrestru felly.

(3) Wrth benderfynu a oes gan y person sy'n ceisio cymeradwyaeth fel clinigydd cymeradwy y cymwyseddau perthnasol fel sy'n ofynnol o dan baragraffau (1)(b) a (2)(b), rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo roi sylw i eirdaon y person hwnnw.

Cyfnod cymeradwyaeth

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo gymeradwyo person i weithredu fel clinigydd cymeradwy am gyfnod o 5 mlynedd.

(2) Pan fo person wedi ei gymeradwyo i weithredu fel clinigydd cymeradwy o dan reoliad 4(2), ni chaiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo ond cymeradwyo'r person hwnnw i weithredu fel clinigydd cymeradwy am y cyfnod sy'n weddill mewn perthynas â'i gymeradwyaeth o ran Lloegr.

Amodau i gadw cymeradwyaeth yn ystod y cyfnod cymeradwyaeth

6.—(1) Mae unrhyw gymeradwyaeth a roddir o dan y Cyfarwyddydau hyn yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn—

- (a) rhaid i'r clinigydd cymeradwy beidio ar unwaith â gweithredu felly a rhaid iddo hysbysu'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ar unwaith os yw'n cael ei atal dros dro o unrhyw un neu ragor o'r cofrestrau neu'r rhestrau y cyfeirir atynt yn y gofynion proffesiynol;
- (b) rhaid i'r clinigydd cymeradwy hysbysu'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ar unwaith—
 - (i) os oes unrhyw amodau wedi eu hatodi, gan ei gorff proffesiynol, i'w gofrestrriad neu ei restrriad,
 - (ii) os daw'n destun achos addasrwydd i ymarfer gan ei gorff proffesiynol,
 - (iii) os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir yng nghyfarwyddyd 4 neu 9 mwyach, yn ôl y digwydd, a
 - (iv) os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd, neu'n cael rhybuddiad am drosedd, yn y Deyrnas Unedig, neu os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd, neu'n cael

rhybuddiad am drosedd, y tu allan i'r Deyrnas Unedig a fyddai, pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn ffurfio trosedd;

- (c) rhaid i'r clinigydd cymeradwy, ar gais, ddarparu tystiolaeth i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ei fod yn parhau i feddu ar y cymwyseddau perthnasol;
- (d) rhaid i'r clinigydd cymeradwy beidio ar unwaith â gweithredu fel clinigydd cymeradwy os yw cymeradwyaeth y person yn cael ei hatal dros dro neu pan fo'r cyfnod cymeradwyaeth yn dod i ben pan na fo cais am ailgymeradwyaeth wedi ei wneud; ac
- (e) unrhyw amodau eraill y mae'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn ystyried eu bod yn rhesymol ac yn briodol.

(2) Os yw amodau yn cael eu hatodi i gofrestrriad neu restrriad y clinigydd cymeradwy gan ei gorff proffesiynol yn ystod y cyfnod cymeradwyaeth, rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo atodi'r un amodau i'r gymeradwyaeth, oni bai ei fod wedi atal dros dro'r gymeradwyaeth o dan gyfarwyddyd 7(3).

Atal dros dro gymeradwyaeth

7.—(1) Os yw corff proffesiynol y clinigydd cymeradwy yn atal dros dro y cofrestrriad hwnnw neu'r rhestrriad hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cymeradwyaeth, rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo atal dros dro gymeradwyaeth y clinigydd hwnnw am gyhyd ag y bo'r cofrestrriad neu'r rhestrriad wedi ei atal dros dro.

(2) Os oes gan glinigydd cymeradwy amodau wedi eu hatodi i'w gofrestrriad neu ei restrriad gan ei gorff proffesiynol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cymeradwyaeth, caiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo atal dros dro gymeradwyaeth y person hwnnw.

(3) Os yw clinigydd cymeradwy ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cymeradwyaeth yn cael ei euogfarnu o drosedd, neu'n cael rhybuddiad am drosedd, yn y Deyrnas Unedig, neu os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd, neu'n cael rhybuddiad am drosedd, y tu allan i'r Deyrnas Unedig a fyddai, pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn ffurfio trosedd, caiff y Bwrdd sy'n cymeradwyo atal dros dro gymeradwyaeth y person hwnnw.

(4) Cyn i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo atal dros dro gymeradwyaeth clinigydd cymeradwy o dan baragraffau (1), (2) neu (3), rhaid iddo—

- (a) rhoi i'r clinigydd cymeradwy ei resymau dros ystyried atal dros dro'r gymeradwyaeth;
- (b) rhoi i'r clinigydd cymeradwy gyfnod o amser y mae'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn ystyried

ei fod yn rhesymol i gyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â'r camau arfaethedig; ac

(c) ystyried sylwadau a gyflwynir gan y clinigydd cymeradwy i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo.

(5) Pan yw'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn atal dros dro gymeradwyaeth clinigydd cymeradwy, rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo hysbysu'r clinigydd cymeradwy a'r corff proffesiynol sy'n gyfrifol am reoleiddio cofrestriad neu restrriad proffesiynol y clinigydd cymeradwy am ei resymau dros y penderfyniad.

(6) Os yw cymeradwyaeth person yn cael ei hatal dros dro, ni chaiff y person hwnnw weithredu yn y rhinwedd honno oni bai a hyd nes y bydd y Bwrdd sy'n cymeradwyo yn dod â'r cyfnod atal dros dro gymeradwyaeth i ben.

(7) Pan fo'r cyfnod atal dros dro gymeradwyaeth wedi dod i ben, bydd y gymeradwyaeth yn parhau'n weithredol am weddill y cyfnod cymeradwyaeth oni bai bod y Bwrdd sy'n cymeradwyo yn dod ag ef i ben yn gynharach yn unol â chyfarwyddyd 8.

Cymeradwyaeth yn dod i ben

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae cymeradwyaeth clinigydd cymeradwy yn dod i ben pan fo'r cyfnod cymeradwyaeth yn dod i ben.

(2) Rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ddod â chymeradwyaeth clinigydd cymeradwy i ben cyn i'r cyfnod cymeradwyaeth ddod i ben o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

- (a) os, ym marn y Bwrdd sy'n cymeradwyo, nad yw'r clinigydd cymeradwy yn cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau a restrir yng nghyfarwyddyd 6;
- (b) os, ym marn y Bwrdd sy'n cymeradwyo, nad oes gan y clinigydd cymeradwy y cymwyseddau perthnasol mwyach;
- (c) os nad yw'r clinigydd cymeradwy yn bodloni'r gofynion proffesiynol mwyach; neu
- (d) os yw'r clinigydd cymeradwy yn gwneud cais, yn ysgrifenedig, i ddod â'i gymeradwyaeth i ben.

(3) Cyn i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo ddod â chymeradwyaeth clinigydd cymeradwy i ben o dan baragraffau (2)(a)-(c), rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo—

- (a) rhoi i'r clinigydd cymeradwy ei resymau dros ystyried dod â'r gymeradwyaeth i ben;
- (b) rhoi i'r clinigydd cymeradwy gyfnod o amser y mae'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn ystyried ei fod yn rhesymol i gyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â'r camau arfaethedig; ac

- (c) ystyried sylwadau a gyflwynir gan y person i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo.

(4) Pan fo'r Bwrdd sy'n cymeradwyo yn dod â chymeradwyaeth clinigydd cymeradwy i ben o dan baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo hysbysu'r clinigydd hwnnw ar unwaith yn ysgrifenedig am y dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben a'r rheswm dros ddod â'r gymeradwyaeth i ben.

Ailgymeradwyaeth

9.—(1) Caiff Bwrdd roi ailgymeradwyaeth i berson sydd wedi ei gymeradwyo'n glinigydd cymeradwy yn flaenorol yng Nghymru—

- (a) pan fo'r gymeradwyaeth flaenorol wedi bod mewn grym o fewn y cyfnod o 5 mlynedd yn union cyn dyddiad y cais am ailgymeradwyaeth;
- (b) pan fo'r person sy'n ceisio ailgymeradwyaeth yn bodloni'r gofynion proffesiynol;
- (c) pan fo'r person sy'n ceisio ailgymeradwyaeth yn gallu dangos bod ganddo'r cymwyseddau perthnasol;
- (d) pan fo gan y person sy'n ceisio ailgymeradwyaeth dystysgrif cofnod troseddol manwl o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 gan gynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant o dan adran 113BA ac oedolion hyglwyf o dan adran 113BB o'r Ddeddf honno oni bai bod yr ymgeisydd:
 - (i) yn berson sydd wedi ei gofrestru, neu'n bartner mewn partneriaeth sydd wedi ei chofrestru, o dan Bennod 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, neu
 - (ii) wedi ei gyflogi ar hyn o bryd gan berson sydd wedi ei gofrestru felly, ac
- (e) pan fo'r person wedi cwblhau cwrs hyfforddi diweddar o fewn y cyfnod o 2 flynedd yn union cyn y dyddiad y daeth cyfnod cymeradwyaeth blaenorol y person i ben.

(2) Wrth benderfynu a oes gan y person sy'n ceisio ailgymeradwyaeth fel clinigydd cymeradwy y cymwyseddau perthnasol fel sy'n ofynnol o dan baragraff (1)(c), rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo roi sylw i eirdaon y person hwnnw.

Monitro a Chofnodion

10.—(1) Rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo gadw cofnod o bob clinigydd cymeradwy y mae'n ei gymeradwyo a rhaid i'r cofnodion hynny gynnwys—

- (a) y cais;
- (b) enw'r person;

- (c) proffesiwn y person;
- (d) dyddiadau'r gymeradwyaeth;
- (e) y cyfnod y rhoddir cymeradwyaeth ar ei gyfer;
- (f) manylion unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau y cyfeirir ato yng nghyfarwyddydau 4 a 9;
- (g) geiradaon y person;
- (h) manylion unrhyw—
 - (i) amodau sydd wedi eu hatodi i'r gymeradwyaeth,
 - (ii) cymeradwyaeth sydd wedi ei hatal dros dro a'r dyddiad y mae'r cyfnod atal dros dro gymeradwyaeth hwnnw yn dod i ben,
 - (iii) cymeradwyaeth sy'n dod i ben.

(2) Rhaid i'r Bwrdd sy'n cymeradwyo gadw'r cofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), mewn perthynas â phob clinigydd cymeradwy a gymeradwyir ganddo, am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl i gymeradwyaeth clinigydd cymeradwy ddod i ben.

Dirymu

11. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed yng nghyfarwyddyd 12, mae'r cyfarwyddydau a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Cyfarwyddydau 2008;
- (b) Cyfarwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 ynghylch Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) (Diwygio) 2009.

Darpariaethau trosiannol ac arbed

12.—(1) Pan fo person, yn union cyn y dyddiad y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym, yn cael ei gymeradwyo'n glinigydd cymeradwy, ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw bydd y Cyfarwyddydau hyn yn gymwys i gymeradwyaeth y person hwnnw fel pe bai'r gymeradwyaeth wedi ei rhoi yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn ac eithrio y bydd y cyfnod cymeradwyaeth yn dechrau ar y dyddiad y rhoddwyd cymeradwyaeth mewn gwirionedd o dan Gyfarwyddydau 2008.

(2) Pan fo person wedi gwneud cais am gymeradwyaeth cyn y diwrnod y daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym, ond na phenderfynwyd ar y cais hwnnw eto, mae'r cais hwnnw i gael ei benderfynu yn unol â Chyfarwyddydau 2008 er gwaethaf dirymu'r Cyfarwyddydau hynny.

(3) Pan fo cais y mae paragraff (2) yn gymwys iddo yn arwain at y Bwrdd sy'n cymeradwyo yn rhoi cymeradwyaeth, bydd y Cyfarwyddydau hyn yn gymwys i gymeradwyaeth y clinigydd cymeradwy

hwnnw fel pe bai cymeradwyaeth o'r fath wedi ei rhoi o dan y Cyfarwyddydau hyn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Dr Elizabeth Davies
Pennaeth Is-Adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac
Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig

16 Gorffennaf 2018

ATODLEN 1

Cyfarwyddyd 4(a)

Gofynion Proffesiynol

1. Er mwyn bodloni'r gofynion proffesiynol, rhaid i berson gyflwyno tystiolaeth i ddangos ei fod yn un neu ragor o'r canlynol—

- (a) yn ymarferydd meddygol cofrestredig;
- (b) yn seicolegydd sydd wedi ei restru yng Nghofrestr Seicolegwyr Siartredig Cymdeithas Seicolegol Prydain ac sy'n dal tystysgrif ymarfer berthnasol a ddyroddir gan y Gymdeithas honno(1) neu'n seicolegydd ymarferol sydd wedi ei gofrestru mewn rhestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal(2);
- (c) yn nyrs lefel gyntaf, sydd wedi ei chofrestru yn Is-ran 1 o'r Rhan i'r Nyrsys o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(3), gan gynnwys cofnod sy'n nodi mai nyrsio iechyd meddwl neu nyrsio anabledau dysgu yw ei maes ymarfer;
- (d) yn therapydd galwedigaethol sydd wedi ei restru yn y gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;
- (e) yn weithiwr cymdeithasol sydd wedi ei restru yn y gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru(4) neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

-
- (1) Mae Cymdeithas Seicolegol Prydain yn gorff Siarter Frenhinol, wedi ei chofrestru'n elusen yng Nghymru a Lloegr Rhif 229642 ac yn St. Andrew's House, 48 Princess Road East, Leicester, LE1 7DR.
 - (2) Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd wedi ei sefydlu o dan erthygl 3 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001, O.S. 2002/254.
 - (3) O.S. 2002/235.
 - (4) Mae Cyngor Gofal Cymru wedi ei sefydlu o dan adran 54(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14). Cafodd adran 54(1) ei diddymu ond mae'r corff o'r enw Cyngor Gofal Cymru i barhau i fodoli ond mae wedi ei ailenwi'n Ofal Cymdeithasol Cymru yn rhinwedd adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (2016 dccc 2).

ATODLEN 2

Cyfarwyddyd 4(b)

Cymwyseddau perthnasol

1. Rôl y clinigydd cymeradwy

1.1 Dealltwriaeth gynhwysfawr o rôl, cyfrifoldebau cyfreithiol a swyddogaethau allweddol clinigydd cymeradwy a chlinigydd cyfrifol.

2. Ymarfer ar sail gwerthoedd

2.1 Y gallu i nodi a chymhwyso'r ystod o driniaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol ac effeithiol a lleoliadau'r triniaethau y gellir eu darparu drwy'r dulliau sy'n cyfyngu leiaf ar gyfer y rheini yr ymdrinnir â hwy neu y caniateir ymdrin â hwy o dan Ddeddf 1983.

2.2 Deall nodweddion personol unigryw unigolion a'u parchu.

2.3 Bod yn sensitif i anghenion unigolion o ran parch at y claf ac at ddewis, urddas a phreifatrwydd y claf wrth arfer rôl clinigydd cymeradwy neu glinigydd cyfrifol.

2.4 Y gallu i hybu hawliau, urddas a hunanbenderfyniad cleifion sy'n gyson â'u hanghenion a'u dymuniadau eu hunain, er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu hansawdd bywyd ac ar eu rhyddid.

3. Asesu

3.1 Y gallu i nodi presenoldeb neu absenoldeb anhwylder meddwl a difrifoldeb yr anhwylder, gan gynnwys a yw'n anhwylder o fath neu o radd sy'n cyfiawnhau cadw unigolyn yn gaeth o dan Ddeddf 1983.

3.2 Y gallu i ymgymryd ag asesiadau iechyd meddwl sy'n cynnwys persbectifau biolegol, seicolegol, diwylliannol a chymdeithasol.

3.3 Y gallu i asesu pob lefel o risg glinigol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diogelwch y claf ac eraill o fewn fframwaith ar sail tystiolaeth ar gyfer asesu a rheoli risg.

3.4 Y gallu i ddangos bod ganddo sgiliau lefel uchel o ran penderfynu a oes gan glaf y galluedd i gydsynio i driniaeth.

4. Cynllunio Gofal a Thriniaeth

4.1 Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cynllunio gofal sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) meddu ar y gallu i:

- (a) cynnwys cleifion a (pan fo'n briodol) eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth gynllunio gofal;
- (b) asesu anghenion cleifion;
- (c) llunio cynlluniau gofal unigol i ddiwallu anghenion cleifion a nodwyd;
- (d) sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu gweithredu fel y cytunwyd arnynt;
- (e) adolygu a gwerthuso cynlluniau gofal (a'u diwygio yn ôl yr angen).

5. Triniaeth

5.1 Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i fanteisio ar arbenigedd y timau amlddisgyblaethol o ran triniaethau arbenigol er budd y claf. I gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dealltwriaeth o rolau a chymwyseddau arbenigol aelodau amrywiol tîm amlddisgyblaethol, mewn perthynas â thriniaethau a therapïau penodol.

5.2 Deall yn fras yr holl driniaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, h.y. ymyraethau corfforol, seicolegol a chymdeithasol.

6. Arweinyddiaeth a Gweithio mewn Tîm Amlddisgyblaethol

6.1 Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer:

- (a) arwain tîm amlddisgyblaethol yn effeithiol i gyflenwi rhaglenni gofal cydgysylltiedig, er mwyn diwallu anghenion cleifion y mae'n gyfrifol amdanynt;
- (b) rhoi ystyriaeth i farn a safbwyntiau cleifion a (pan fo'n briodol) eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth ddatblygu rhaglenni gofal sy'n ymwneud â'r tîm;
- (c) ystyried yn wrthrychol farn broffesiynol cydweithwyr eraill o fewn y tîm wrth lunio rhaglenni gofal, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth yn rhai amlddisgyblaethol ac wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn.

6.2 Meddu ar sgiliau lefel uchel wrth wneud dyfarniadau a phenderfyniadau cymhleth a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt, heb gyfeirio at oruchwyliaeth ym mhob achos unigol.

7. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau

7.1 Y gallu i ddangos gwybodaeth gymhwysol a chyfredol am ddeddfwriaeth cydraddoldeb a materion cydraddoldeb perthnasol a dealltwriaeth ohonynt.

7.2 Ymwbyddiaeth o sut y gall ffactorau diwylliannol a gwerthoedd personol effeithio ar farn a phenderfyniadau ymarferwyr wrth iddynt gymhwysu deddfwriaeth iechyd meddwl.

7.3 Y gallu i nodi a herio pob ffurf ar wahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn perthynas ag ymarfer gan glinigydd cymeradwy, a gwneud iawn am hynny pan fo hynny'n bosibl.

7.4 Y gallu i ddangos gwybodaeth gymhwysol a chyfredol am hawliau plant a phobl ifanc a dealltwriaeth o'r hawliau hynny.

7.5 Y gallu i ddangos gwybodaeth gymhwysol a chyfredol am hawliau pobl hŷn a dealltwriaeth o'r hawliau hynny, yn benodol yr hawl i bobl hŷn wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywydau.

8. Deddfwriaeth a Pholisi Iechyd Meddwl

8.1 Gwybodaeth weithredol gyfredol am:

- (a) deddfwriaeth iechyd meddwl berthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005(1), a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(2);
- (b) deddfwriaeth berthnasol arall, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998(3), Deddf Plant 1989(4), Deddf Plant 2004(5) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(6);
- (c) canllawiau perthnasol oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, codau ymarfer a pholisïau a phrotocolau cenedlaethol; a
- (d) cyfraith achosion perthnasol.

8.2 Yn y paragraff uchod, ystyr y term "perthnasol" yw'r hyn sy'n berthnasol i ymarfer clinigwyr cymeradwy a chlinigwyr cyfrifol.

9. Cyfathrebu

9.1 Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phroffesiynolion, cleifion, gofalwyr ac eraill, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir a'r rhesymau sy'n sail i'r penderfyniadau hynny, a chan gynnwys gallu i benderfynu a oes gan glaf y gallu neu'r cymhwysedd i gydsynio i driniaeth.

(1) 2005 p. 9.
(2) 2010 decc. 7.
(3) 1998 p. 42.
(4) 1989 p. 41.
(5) 2004 p. 31.
(6) 2014 decc. 4.

9.2 Ystyried anghenion penodol unigolion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith ganddynt.

9.3 Ystyried anghenion penodol cleifion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig.

9.4 Y gallu i ddangos y cedwir cofnodion yn briodol yn unol â gofynion cyfreithiol.

9.5 Y gallu i lunio a llenwi dogfennaeth statudol ac i ddarparu adroddiadau ysgrifenedig fel y bo'n ofynnol i glinigydd cymeradwy ei wneud.

9.6 Y gallu i ysgrifennu adroddiadau effeithiol.

9.7 Y gallu i gyflwyno tystiolaeth yn gymwys, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i lysoedd a thribiwnlysoedd.

Atodiad B

Crynodeb o'r gofynion ar gyfer Cymeradwyaeth Gychwynnol

		Meddygon ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon ym Mlwyddyn Olaf yr hyfforddiant arbenigol uwch ar gyfer eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Gweithwyr proffesiynol cofrestredig ym maes Nyrso, Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Seicoleg
1.	Cais cyflawn heb gamgymeriadau	Oes	Oes	Oes	Oes
2.	Dau eirda, gydag un ohonynt oddi wrth y cyflogwr cyfredol neu ddiweddaraf	Oes	Oes	Oes	Oes
3.	Curriculum Vitae wedi'i ddilysu i ddangos tystiolaeth o weithgaredd a dysgu sy'n gysylltiedig â Chymwyseddau Clinigwyr Cymeradwy	Oes	Oes	Oes	Oes
4.	Llythyr gan y Cyfarwyddwr Clinigol yn cadarnhau cyfleoedd i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy	Oes	Oes	Oes	Oes
5.	Cadarnhad gan yr Arweinydd Proffesiynol y caiff yr ymgeisydd gefnogaeth i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes
6.	Tystiolaeth ddiweddar o'r gofynion datblygu proffesiynol parhaus	Oes	Oes	Oes	Oes
7.	Tystiolaeth o werthusiad sy'n dangos canlyniad boddhaol	Oes	Oes – canlyniad ARCP	Oes	Oes

		Meddygon ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon ym Mlwyddyn Olaf yr hyfforddiant arbenigol uwch ar gyfer eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Gweithwyr proffesiynol cofrestredig ym maes Nyrso, Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Seicoleg
8.	Tystiolaeth o bresenoldeb mewn cwrs cynefino i glinigwyr cymeradwy dwy flynedd cyn dyddiad y cais	Oes	Oes	Oes	Oes
9.	Tystiolaeth o gofrestriad proffesiynol cyfredol (yn bodloni gofynion Atodlen 1 i'r Cyfarwyddydau)	Oes	Oes	Oes	Oes
10.	Tystysgrif cofnod troseddol manwl gan gynnwys gwybodaeth am addasrwydd i weithio â phlant ac oedolion agored i niwed	Oes	Oes	Oes	Oes
11.	Cadarnhad ynglŷn ag a gafodd cais am gymeradwyaeth fel Clinigydd Cymeradwy mewn man arall ei wrthod	Oes	Oes	Oes	Oes
12.	Portffolio o dystiolaeth o'r cymwyseddau a amlinellir yn Atodlen 2 i'r Cyfarwyddydau	Nac oes	Nac oes	Oes	Oes
13.	Mynd i gyfarfod gyda'r Bwrdd sy'n Cymeradwyo lle bo angen	Nac oes	Nac oes	Oes	Oes
14.	Tystysgrif cwblhau hyfforddiant ar gyfer parhad y gymeradwyaeth	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes

Atodiad C

Crynodeb o'r gofynion ar gyfer Ailgymeradwyaeth

		Meddygon ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon ym Mlwyddyn Olaf yr hyfforddiant arbenigol uwch ar gyfer eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Gweithwyr proffesiynol cofrestredig ym maes Nyrso, Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Seicoleg
1.	Cais cyflawn heb gamgymeriadau	Oes	Amh	Oes	Oes
2.	Dau eirda, gydag un ohonynt oddi wrth y cyflogwr cyfredol neu ddiweddaraf	Oes	Amh	Oes	Oes
3.	Curriculum Vitae i gynnwys hanes cyflogaeth yn y pum mlynedd ers y gymeradwyaeth ddiwethaf a thystiolaeth o weithgaredd a dysgu yn ymwneud â Chymwyseddau Clinigwyr Cymeradwy	Oes	Amh	Oes	Oes
4.	Curriculum Vitae wedi'i ddilysu gan y Rheolwr Gwasanaethau perthnasol	Oes	Amh	Oes	Oes
5.	Tystiolaeth ddiweddar o'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus	Oes	Amh	Oes	Oes
6.	Tystiolaeth o werthusiad sy'n dangos canlyniad boddhaol.	Oes	Amh	Oes	Oes

		Meddygon ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon ym Mlwyddyn Olaf yr hyfforddiant arbenigol uwch ar gyfer eu cynnwys ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Meddygon nad ydynt ar Gofrestr Arbenigwyr y GMC	Gweithwyr proffesiynol cofrestredig ym maes Nyrso, Therapi Galwedigaethol, Gwaith Cymdeithasol a Seicoleg
7.	Tystiolaeth o bresenoldeb mewn cwrs diweddar i glinigwyr cymeradwy ddwy flynedd cyn y dyddiad y daw'r gymeradwyaeth gyfredol i ben	Oes	Amh	Oes	Oes
8.	Tystiolaeth o gofrestriad proffesiynol cyfredol (yn bodloni gofynion Atodlen 1 i'r Cyfarwyddydau)	Oes	Amh	Oes	Oes
9.	Tystysgrif cofnod troseddol manwl gan gynnwys gwybodaeth am addasrwydd i weithio â phlant ac oedolion agored i niwed	Oes	Amh	Oes	Oes
10.	Cadarnhad ynglŷn ag a gafodd cais am gymeradwyaeth fel Clinigydd Cymeradwy mewn man arall ei wrthod	Oes	Amh	Oes	Oes
11.	Llythyr gan y Cyfarwyddwr Clinigol yn cadarnhau cyfleoedd parhaus i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy	Oes	Amh	Oes	Oes
12.	Cadarnhad gan yr Arweinydd Proffesiynol y caiff yr ymgeisydd gefnogaeth barhaus i weithredu fel Clinigydd Cymeradwy	Nac oes	Amh	Nac oes	Oes